# CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd Nos Fawrth, 14eg o Fai 2024 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanelltyd.cymru

Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd gyfle i ffarwelio ac i ddiolch i Mr Henry Edwards am ei holl waith ar hyd y 15 mlynedd diwethaf fel Clerc Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu. Dymunwn y gorau oll iddo ef.

**Presennol:** Cynghorwyr. Simon Evans, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Gareth Ellis, Llinos Rowlands, Gwenan Owen, Cyng. Delyth Lloyd Griffiths, Eleri Jones

**1.Ymddiheuriadau**

Llinos Williams wedi hysbysu'r Cadeirydd ei bod yn ymadael a'r Cyngor Cymuned.

**2. Dewis Swyddogion**

*Cadeirydd: Gareth Ellis*

*Is Gadeirydd: Eleri Jones*

*Cynrychiolwyr ar y canlynol:*

*Canolfan y Pentref Llanelltyd: Simon Evans*

*Neuadd Bentref Bontddu: Llinos Rowlands*

*Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands & Eleri Jones*

*Un Llais Cymru (2): Simon Evans a Gareth Ellis*

3. **Datgan diddordeb**:

Neb

4. **Cofnodion o gyfarfod Ebrill 9fed wedi eu cadarnhau yn gywir.**

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Ebrill 9fed, 2024**

Eitem 8.c. Ni fydd achos cynllunio Bontddu Hall yn cael ei drafod ym mhwyllgor Cynllunio a Mynediad wythnos nesaf.

Aled Lloyd Uwch Swyddog Cynllunio Parc Eryri yn cynnig i gyafrfod a'r cyngor cymuned i drafod beth mae'r Parc yn ei dderbyn o ran cynlluniau. Delyth Lloyd Griffiths am ei wahodd i'n cyfarfod.

Eitem 9.a. Cyngor Cymuned yn cytuno i waith gael ei gwblhau ar y llochesi bws ym Mro Cymer, ond bod angen cynnal trafodaeth ynglyn a'r math o loches gyferbyn a'r pentref. Eleri Jones i gysylltu gyda Bedwyr Lloyd Williams YGC i gynnal cyfarfod safle yn y pentref i drafod ymhellach.

Eitem 4. Eitem 7. A. Cyngor Cymuned yn cytuno i gynnig y Gwaith o dorri'r gwair yn y fynwent i Wasanaeth Tir a Choed.

**6. Materion Ariannol**

a) Cyngor Cymuned yn cytuno i dalu'r swm £610.35 i Zurich i adnewyddu'r yswiriant am y cyfnod 01/06/2024 i 31/05/2025.

c. Lwfansau Aelodau 2024/2025. Aelodau angen datgan os nad ydynt yn dymuno i dderbyn taliad. Aelodau i wneud hynny drwy arwyddo'r ffurflen yn y cyfarfod nesaf.

Ch) Cyfrifon Cyngor Cymuned Llanelltyd 2023-2-24 wedi'i cadarnhau yn gywir.

**7. Archwilio**

a) Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i arwyddo gan y Cadeirydd.

**8. Mynwent Llanelltyd**

b) Geraint mewn trafodaethau gyda Ms Tina Edwards ynglyn a chladdedigaeth ei chwaer.

c) Cyfarfod safle i gael ei gynnal yn y fynwent i drafod lleoliadau addas i gladdu.

**9. Awdurdod Parc Cendelaethol Eryri**

c) *Cais cynllunio NP5/65/274J* Wedi cytuno yn y gorffennol – fawr o newid i'r cynlluniau.

Ch) *Cais cynllunio NP5/65/13B* – Dim sylw.

**10. Gohebiaeth**

ff. Elusen Ambiwlans Cymru . Mae deiseb i wrthwynebu'r cynlluniau newydd ar lein i'r rheiny sydd eisiau ei arwyddo.

**11. Bioamrywiaeth**

a. Dim gwybodaeth pellach i'w anfon i'r Parc Cenedlaethol Eryri parthed grant Bioamrywiaeth.

**12. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

.

1.Cyflymder yn Llanelltyd - diolch i bawb am ddod a hefyd i'r rhai oedd yn hapus i siarad gyda'r wasg ar yr achlysur.
Mae Mabon ap Gwynfor wedi anfon llythyr at Ken Skates y gweinidog y Llywodaeth Cymru.
Mae ateb wedi dod yn ôl sydd yn dweud fod adolygiad a bob ffordd a dim arian na threfniadau i wneud gwaith ar y ffordd yn Llanelltyd.
Mae adran cefnffyrdd yn dweud nad yw mater y cyflymder yn fater iddynt gan mai cynnal a chadw y ffordd yw ei gwaith hwy.
Bydd angen i ni benderfynu yn y cyfarfod nesaf beth yw ein cynllun nesaf.

2.Cais Cynllunio Bontddu Hall
Ni fydd y mater yma gerbron y Parc fel ac y bwriadwyd gan fod Aled Lloyd wedi gofyn i'r asiant (Geraint Lewis) i ail gyflwyno y cais gan fod y nifer o dai marchnad agored yn rhy uchel a pwyslais y datblygiad yma ar dai fforddiadwy.
Mae Mrs Taylor a Mr Pike wedi rhoi eu sylwadau i'r Parc ac yn awyddus i ddod i glywed y drafodaeth yn y Cyngor yma gan fod Swyddog Cynllunio y Parc( Aled) yn fodlon dod i siarad a ni ym mis Mehefin. Bydd angen ystyried darpariaeth cyfieithu ar gyfer y cyfarfod.

3.Coed y Brenin.Mae grwp lleol Caru Coed y Brenin wedi cael ei sefydlu fel grŵp cymunedol a wedi cael gant o £15000 gan Gwynedd drwy mudiad Cymunedol i wneud arolwg dichonoldeb. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i wireddu eu holl addewidion hyd yma ac felly mae datganiad i'r wasg wedi ei gylchredeg gan grŵp Coed y Brenin sydd yn rhoi gwybodaeth am werthu yr adnoddau i ddatblygwyr preifat.

4.Yr wyf yn barhâi i weithio ar fater torri coed sydd yn rhan o achos llys gorchymyn gorfodaeth yn Bontddu.

*Bolard y bont – Delyth wedi derbyn diweddariad gan yr heddlu ddoe. Bolard newydd ar ordor.*

**13. Materion brys**. Bin halen – Elfed am lythyru Adrian Wyn Williams.